**EXD 178(AI)(W)**
**Llywodraeth Cymru**
**Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn a Gymathwyd (UE) 2018/1136**
**Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006**

---

## Trwydded gyffredinol i drefnu ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu grynhoad arall sy’n cynnwys casglu at ei gilydd adar caeth eraill yng Nghymru

1) Yn unol â rheoliad 6(1) o Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) O.S. 2006/2803 (Cy. 242)) (“Rheoliadau 2006”), mae Gweinidogion Cymru yn rhoi’r drwydded gyffredinol hon sy’n caniatáu crynhoi adar caeth eraill, ar yr amod fod y trwyddedai yn cydymffurfio â’r amodau yn yr Atodlen, ac eithrio:

- adar Anseriforme (gan gynnwys hwyaid, gwyddau, elyrch);

2) Mae asesiad risg milfeddygol wedi cael ei gynnal yn unol â rheoliad 6(3)(a) o Reoliadau 2006.

3) Mae Gweinidogion Cymru yn fodlon (yn ddarostyngedig i’r amodau yn yr Atodlen), na fydd crynhoi a symud adar i grynoadau, ac oddi yno, yn cynyddu’n sylweddol y risg o drosglwyddo feirws y ffliw adar.

4) Mae’r drwydded gyffredinol hon yn berthnasol i’r broses o gasglu adar caeth eraill (ac eithrio’r rhai a restrir ym mharagraff 1) mewn ffeiriau, marchnadoedd, sioeau, arddangosfeydd a chrynoadau eraill sydd i’w cynnal ar neu ar ôl 00:01 ar 23 Ebrill 2026, yn ddarostyngedig i’r amodau yn yr Atodlen.

5) Mae’r drwydded gyffredinol hon yn berthnasol yn yr ardaloedd risg uwch (HRAs) a nodwyd gan Weinidogion Cymru o dan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/1136 fel rhanddirymiad rhag y gwaharddiad ar gynnal crynodiadau mewn ardaloedd risg uwch fel y’i hawdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan Erthygl 4(4)(e) o’r Penderfyniad hwnnw.

6) Mae asesiad epidemiolegol wedi'i gynnal yn unol ag Erthygl 4(1) o'r Penderfyniad.

7) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu’r drwydded gyffredinol hon unrhyw bryd yn unol â rheoliad 3(1) o Reoliadau 2006, gan ddod i rym yn syth os bydd yr asesiad risg milfeddygol yn newid mewn perthynas â’r risg y bydd y feirws ffliw adar yn ymledu.

8) Mae’r drwydded gyffredinol ar gyfer adar caeth eraill (dyddiedig 10 Chwefror 2025) drwy hyn yn cael ei dirymu gydag effaith o 00:01 ar 23 Ebrill 2026.

Llofnodwyd gan Natalie Sampson, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru

Dros ac ar ran Gweinidogion Cymru:

Am 15:00 ar 22 Ebrill 2026

**Mae peidio â chydymffurfio â’r drwydded hon yn drosedd dan Reoliadau 2006 a gall person a geir yn euog wynebu dirwy a/neu garchar o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.**

# Atodlen amodau

## Cyffredinol a dehongli

1) Yn yr Atodlen hon:

- "trwyddedai" yw'r sawl sy'n trefnu'r crynhoad adar ac sy'n gyfrifol am gydymffurfio ag amodau'r drwydded hon
- mae "digwyddiad" yn derm arall a ddefnyddir yn yr Atodlen hon ar gyfer un crynhoad
- "cyfranogwr" yw unigolyn sy'n dod ag adar i grynhoad neu'n eu symud o gwrtil crynhoad ar ôl y digwyddiad
- "cwrtil" y crynhoad yw'r holl fannau yn y fangre neu'r cerbyd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer crynhoad, sy'n cynnwys mannau lle mae cynnyrch dofednod ac adar byw yn cael eu cadw, a mannau lle mae gwastraff (fel sarn, tail neu ddeunydd gwastraff arall sy'n dod o anifeiliaid) yn cael eu storio
- mae "mangre" yn cynnwys unrhyw dir, adeiladau neu fan arall. Fel nad oes amheuaeth, mae hyn yn golygu pob man cyhoeddus neu breifat, fel meysydd parcio, tir diffaith a chilfannau.
- mae "cerbyd" yn cynnwys trelar, lled-drelar neu rywbeth arall a ddyluniwyd neu a addaswyd i gael ei dynnu gan gerbyd arall; rhan o unrhyw gerbyd y gellir ei datgysylltu; a chynhwysydd neu strwythur arall a ddyluniwyd neu a addaswyd ar gyfer ei gario ar gerbyd

### Hysbysu

2) Rhaid i'r trwyddedai hysbysu'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) o leiaf 7 diwrnod cyn y digwyddiad.

3) Rhaid i unrhyw hysbysiad a fydd yn cael ei gyflwyno i APHA gynnwys yr wybodaeth ganlynol o leiaf:

(a) y dyddiad (neu'r amrywiol ddyddiadau) y bydd y crynhoad adar yn digwydd;

(b) lleoliad y crynhoad, yn cynnwys cyfeiriad post llawn a'r cod post, a rhif CPH (os yw'n berthnasol);

(c) manylion y trwyddedai, yn cynnwys enw llawn y person cyswllt, cyfeiriad cyswllt, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost (os yw ar gael);

(d) y nifer a'r math(au) o adar a ddisgwylir yn y crynhoad; a

(e) diben neu ddibenion y crynhoad.

4) Os bydd unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarperir yn amod 3, pwyntiau (a), (b), (c) neu (e) neu unrhyw newidiadau arwyddocaol o dan (d) sy'n digwydd rhwng cyflwyno'r hysbysiad ac unrhyw ddigwyddiad, rhaid rhoi gwybod i APHA cyn gynted ag y bo modd cyn y digwyddiad.

5) Os yw'r digwyddiad ar ffurf masnachu rheolaidd neu werthiant o bell neu dros y rhyngrwyd, rhaid i'r fangre ac unrhyw gerbydau a ddefnyddiwyd gan y trwyddedai ar gyfer crynhoi'r adar yn dilyn y cyfryw werthiant gael ei gofrestru ag APHA, a rhaid i'r trwyddedai roi gwybod i APHA yn flynyddol o leiaf ba mor aml y cynhelir gwerthiannau o'r fath a'u maint.

**Bioddiogelwch**

6) Rhaid i'r trwyddedai gymryd pob cam rhesymol i atal clefyd adar hysbysadwy rhag lledaenu i'r fangre neu'r cerbyd, o fewn y fangre neu'r cerbyd ac oddi ar y fangre neu'r cerbyd lle mae'r crynhoad yn cael ei gynnal ac mewn achos o'r clefyd neu amheuaeth ohono bydd modd olrhain yr holl adar sy'n mynychu'r crynhoad.

7) Rhaid i drwyddedai unrhyw ffair, marchnad, sioe neu arddangosfa ddarparu cyngor am fioddiogelwch i bob cyfranogwr cyn y cyfryw ddigwyddiad. Rhaid i'r cyngor hwnnw gynnwys:

(a) argymhelliad y dylai adar gael archwiliad iechyd cyn teithio i unrhyw grynhoad; a

(b) cyngor y dylai unrhyw adar sy'n teithio o grynhoad i fangre (boed y fangre y daethant ohoni neu leoliad newydd) gael eu cadw oddi wrth adar eraill yn y fangre honno a bod eu hiechyd yn cael ei fonitro am o leiaf wythnos ar ôl hynny;

8) Rhaid i'r trwyddedai hefyd gynghori cyfranogwyr:

a) i gydymffurfio â'r gofynion cofrestru gorfodol ar gyfer ceidwaid adar a gedwir mewn unrhyw fangre ym Mhrydain Fawr; a

b) ar gyfer unrhyw aderyn sy'n mynychu crynhoad yng Nghymru, bod yn rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru a bod yn rhaid iddynt ddarparu eu rhif CPH cyn cael mynediad:

- pan fo'r fangre wreiddiol yng Nghymru neu Loegr, rhaid i'r ceidwad fod wedi'i gofrestru gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar y gofrestr adar a gedwir;

- pan fo'r fangre wreiddiol yn yr Alban, rhaid i'r ceidwad fod wedi'i gofrestru ar Gofrestr Adar a Gedwir yn yr Alban a weithredir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

9) Rhaid i'r trwyddedai beidio â chaniatáu i unrhyw gaets, crât, basged, neu gynhwysydd arall ddod i grynhoad pan ellir gweld ei fod wedi'i halogi â thail adar, neu ddeunydd arall sy'n dod o adar, ac eithrio tail a gynhyrchir wrth i'r adar gael eu cludo i'r crynhoad. Rhaid i'r trwyddedai hysbysu'r holl gyfranogwyr ymlaen llaw am y gofyniad hwn, yn ei lenyddiaeth hysbysebu, ar ffurflenni cofrestru neu drwy unrhyw ddull priodol arall.

10) Rhaid i'r holl arwynebau solet sy'n agored i adar neu eu tail gael eu glanhau a'u diheintio'n drwyadl gan y trwyddedai cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i'r adar adael y crynhoad a chyn y digwyddiad nesaf. Mae'r arwynebau hyn yn cynnwys, ymhlith rhai eraill, lloriau caled, concrit, mannau wedi'u tarmacio neu eu palmantu, lloriau, waliau, byrddau a cherbydau a ddefnyddiwyd yn y digwyddiad. Oni ellir glanhau a diheintio man (mannau glaswelltog er enghraifft), ni cheir cynnal crynhoad arall nes y bydd yn cael ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan APHA.

11) Rhaid i'r trwyddedai:

(a) sicrhau na fydd adar yn cael mynediad i grynhoad oni bydd y cyfranogwr yn datgan nad ydynt yn dod o fangre neu ardal sydd o dan gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chadarnhad o bresenoldeb clefyd adar hysbysadwy, gan gynnwys o unrhyw barth rheoli clefyd dros dro sydd wedi'i osod gan Weinidogion ac y gall ddarparu Rhif CPH dilys i gadarnhau hyn (os oes angen); a

(b) sicrhau, pan fyddant yn cyrraedd lleoliad y digwyddiad bod yr adar yn aros ar wahân i bob aderyn a mamaliaid arall ar safle'r digwyddiad nes bod yr holl adar o'r fath wedi cael eu harchwilio'n unigol gan geidwad adar, gwerthwr neu farnwr digon profiadol a ddynodwyd gan y trwyddedai; a

(c) sicrhau yr hysbysir APHA yn syth am unrhyw adar sy'n methu'r archwiliad neu sy'n dangos arwyddion clinigol clefyd adar hysbysadwy yn ystod y digwyddiad. Rhaid rhwystro'r cyfryw adar rhag cymryd rhan yn y crynhoad a rhaid eu cadw ar wahân i adar eraill nes bod arolygydd milfeddygol wedi'u harchwilio a bod APHA wedi rhoi ei awdurdod ysgrifenedig iddynt gael gadael y crynhoad;

(d) sicrhau bod deunydd gwastraff, gan gynnwys unrhyw fwyd y gall unrhyw adar fod wedi mynd ato, a phob sarn, tail, carcasau adar neu ddefnydd arall sy'n dod o adar ac sydd wedi'u gadael ar ôl ar ddiwedd y digwyddiad yn cael eu:

(i) gwaredu fel na all adar (yn cynnwys adar gwyllt) fynd atynt (dylai hyn gynnwys defnyddio bagiau dwbl, a'u cludo ymaith yn ddiogel gan gwmni gwastraff trwyddedig addas), neu

(ii) trin er mwyn cael gwared â'r risg o drosglwyddo clefyd; a

(iii) bod unrhyw ardaloedd lle canfuir y cyfryw ddeunydd yn cael eu glanhau a'u diheintio'n briodol hefyd.

(e) sicrhau bod unrhyw gaetsys, cratiau, basgedi, corlannau neu gynwysyddion arall na chawsant eu symud o'r fangre neu gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y crynhoad gan y rheini a ddaeth i'r crynhoad yn cael eu glanhau a'u diheintio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y crynhoad ac ym mhob achos cyn iddynt gael eu defnyddio eto; a

(f) sicrhau bod cyfleusterau glanhau a diheintio (er enghraifft, cyfleusterau golchi dwylo, matiau diheintio a dipiau traed) ar gael i gyfranogwyr ac ymwelwyr yn y safle, a bod cyfranogwyr yn glynu wrth arferion bioddiogelwch da; a

(f) sicrhau nad oes neb y gellir gweld ei fod wedi'i heintio â thail, plu neu ddeunydd arall sy'n dod o adar yn cael dod i mewn i ardal yr adar nes y ceir gwared â'r cyfryw halogiad.

12) Argymhellir hefyd i'r trwyddedai sicrhau bod llawfeddyg milfeddygol ar gael i fynychu ar fyr rybudd yn ystod yr holl amser y mae adar yn bresennol yn y cynulliad, a sicrhau ei fod yn cael ei ymgynghori ynghylch unrhyw bryderon iechyd neu les adar. Fodd bynnag, dylid rhoi gwybod am amheuaeth o glefyd adar hysbysadwy yn uniongyrchol ac ar unwaith i APHA

**Lleoliad y crynhoad**

13) Rhaid peidio â lleoli'r crynhoad mewn unrhyw Barth Gwarchod ar gyfer clefydau adar hysbysadwy, Parth Gwyliadwriaeth, Parth Rheoli Dros Dro, Parth Rheoli (Monitro) Adar Caeth, Parth Cyfyngu ar Symud Dros Dro neu Ardal o dan Gyfyngiadau Ffliw Adar Pathogenedd Isel. Os caiff parth o'r fath ei ddatgan yn ystod y crynhoad, rhaid rhoi trefniadau'r cynllun wrth gefn ar waith yn syth (gweler amod 16 isod) a gofyn am gyngor gan APHA.

**Cadw cofnodion**

14) Rhaid i'r trwyddedai fynnu bod yr holl gyfranogwyr sy'n dod ag adar i grynhoad, ac eithrio cyfranogwyr sy'n dod â cholomennod rasio i ras colomennod, yn llenwi ac yn dychwelyd ffurflen ddatgan wedi'i llofnodi cyn caniatáu mynediad i fannau lle mae adar byw yn cael eu cadw neu'n cael eu crynhoi, gan gadarnhau:

a) eu bod wedi darllen yr wybodaeth am fioddiogelwch a gafodd ei darparu ac y byddant yn cydymffurfio â'r gofynion o ran bioddiogelwch; a

b) nad yw'r adar hyd eithaf eu gwybodaeth wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw gyfrwng clefyd adar hysbysadwy ac nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion o haint; a

c) cyfeiriad mangre wreiddiol yr adar, gyda chadarnhad nad yw'r adar yn dod o fangre mewn Parth Gwarchod, Parth Gwyliadwriaeth, Parth Rheoli Dros Dro, Parth Cyfyngu ar Symud Dros Dro neu barth arall sy'n rheoli clefyd adar hysbysadwy; a

d) bod y fangre wreiddiol wedi'i chofrestru ar y Gofrestr Adar a Gedwir (ar gyfer mangreoedd yng Nghymru a Lloegr) neu'r Gofrestr Adar a Gedwir yn yr Alban (SKBR) ar gyfer mangreoedd yn yr Alban a'u bod wedi rhoi manylion y rhif CPH (os yw'n berthnasol).

15) Rhaid i'r trwyddedai gadw cofnod o'r holl bobl sy'n dod ag adar i'w grynhoad, neu sy'n mynd â'r cyfryw adar o'r crynhoad, a chadw'r cofnod hwnnw am o leiaf dri mis ar ôl y digwyddiad. Rhaid i'r trwyddedai gyflwyno'r cofnodion hyn ar gais arolygydd APHA neu arolygydd Awdurdod Lleol. Rhaid darparu'r cofnod i arolygydd os gofynnir amdano. Rhaid i'r cofnod gynnwys yr wybodaeth ganlynol o leiaf:

a) enw llawn;

b) cyfeiriad cartref gan gynnwys y cod post a manylion y fangre y daeth yr adar ohoni os yw'n wahanol i'r cyfeiriad cartref;

c) rhifau ffôn (llinell dir a/neu symudol);

d) cyfeiriad e-bost (os yw ar gael);

e) y nifer a'r math(au) o adar a gafodd eu harddangos, eu rasio, eu hailgartrefu, eu prynu neu eu gwerthu, manylion o ble daeth yr adar a chyrchfan yr adar; a

f) y datganiad wedi'i lofnodi y cyfeirir ato yn amod 13 (sy'n ofynnol gan bob cyfranogwr ac eithrio'r rheini sy'n dod â cholomennod rasio i ras golomennod).

16) Fel amod ar gyfer cael mynediad i bob digwyddiad neu grynhoad, rhaid i'r trwyddedai fynnu bod yr holl gyfranogwyr yn archwilio'u hadar am unrhyw haint cyn ymadael â'r digwyddiad neu grynhoad.

**Cynllun Wrth Gefn**

17) Rhaid bod gan y trwyddedai gynllun wrth gefn ysgrifenedig ar waith a bydd ar gael ar gyfer ei archwilio. Bydd yn nodi beth fydd yn digwydd os amheuir neu y ceir cadarnhad bod achos o glefyd adar hysbysadwy yn y digwyddiad neu gerllaw iddo. Rhaid i'r cynllun gynnwys:

(a) sut y bydd adar yr amheuir bod clefyd adar hysbysadwy arnynt yn cael eu gwahanu oddi wrth adar eraill; a

(b) os amheuir bod clefyd adar hysbysadwy yn y crynhoad, rhaid i'r cynllun esbonio sut bydd adar yn cael eu cadw yn y fangre neu'r cerbyd a ddefnyddir ar gyfer y crynhoad nes bod Arolygydd Meddygol APHA wedi rhoi cyfarwyddyd bod adar yn cael gadael y fangre; a

(c) trefniadau i gadw adar ym mangre'r digwyddiad neu'r cerbyd a ddefnyddir ar gyfer y crynhoad os oes cyfyngiadau ar symudiadau oddi yno am y bydd y crynhoad yn symud i le mewn parth rheoli clefyd adar hysbysadwy.

**Nodiadau**

1) Mae'r rheolau statudol ar grynoadau adar yn berthnasol i bawb sy'n cadw adar, pa un a yw'r adar yn cael eu cadw'n fasnachol, fel hobi neu fel adar anwes.

2) Bwriad y gwaith o reoli crynoadau adar yw lleihau'r risg o ledaenu feirws ffliw adar sydd heb ei ganfod. Mae rheoliad 6 o Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006 yn gwahardd casglu dofednod neu adar caeth eraill ynghyd oni bydd Gweinidogion Cymru wedi trwyddedu hynny. Mae Erthygl 4(4) o Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/1136 yn caniatáu crynoadau dim ond os oes mesurau bioddiogelwch boddhaol ar waith i atal y risg o drosglwyddo clefyd. Mae'r drwydded hon yn cwmpasu amrywiaeth o sefyllfaoedd lle mae adar yn cael eu casglu ynghyd a bwriad y testun a ganlyn yw helpu ceidwaid adar i ddeall a yw'r rheolau hyn yn berthnasol i'w gweithgarwch hwy.

3) Mae'r nodweddion canlynol yn dangos bod crynhoad adar yn cael ei gynnal:

- bod adar o leoliadau gwahanol yn cael eu dwyn ynghyd i leoliad y crynhoad, a'u bod yn cael eu symud wedyn i gyrchfan all fod y lleoliad y daethant ohono neu leoliad newydd.
- bod adar yn aros yn lleoliad y crynhoad am 14 diwrnod neu lai, wedi i'r aderyn olaf gyrraedd.

4) Dyma enghreifftiau o grynoadau:

- ffeiriau, marchnadoedd, sioeau, gwerthiannau neu arddangosfeydd adar
- colomennod sy'n cael eu crynhoi ynghyd, gan gynnwys cerbydau neu gorlannau rhyddhau, ar gyfer rasio colomennod
- crynhoad o adar hela gwyllt (pan maent yn dod o nifer o leoliadau i un lleoliad ac yn cael eu symud wedyn i fangre wahanol)
- symud adar (ac eithrio lle mae'r symud yn syth i'r lladd-dy), gwerthu adar neu ailgartrefu adar, gan gynnwys drwy fasnachu neu werthu ar y rhyngrwyd, 'gwestai' ieir (lle mae adar yn cael eu cadw dros dro mewn man nad yw'n fangre arferol iddynt) lle mae adar (pa un ai'r rhain sy'n cael eu gwerthu neu beidio) wedi dod i'r fangre yn ystod y 14 diwrnod blaenorol
- adar o nifer o leoliadau sydd wedi dod ar gerbyd ac yna eu gollwng mewn nifer o leoliadau eraill
- dofednod (gan gynnwys adar Anseriforme neu Galliforme) neu wyau deor o un fangre sy'n cael eu cludo i leoliad gwahanol i'w dangos mewn sioe, eu harddangos, eu gwerthu a lle mae adar caeth eraill hefyd yn bresennol e.e. arddangosfa heboga. Ystyrir bod y crynhoad hwn yn grynhoad dofednod.

5) Ni thybir bod y canlynol yn grynoadau adar:

- casglu adar mewn lladd-dy trwyddedig ar gyfer eu lladd
- adar sy'n cael eu dwyn ynghyd o leoliadau gwahanol, ond lle nad oes dim adar yn gadael tan i fwy na 14 diwrnod fynd heibio ers i'r aderyn olaf gyrraedd y fangre
- gwerthu adar fel masnachwr neu dros y rhyngrwyd pan nad oes dim adar yn gadael tan i fwy na 14 diwrnod fynd heibio ers i'r aderyn olaf gyrraedd y fangre (gwaherddir gwerthu adar anwes gan ddeliwr masnachol mewn unrhyw ran o stryd neu fan cyhoeddus, neu mewn stondin neu ferfa drol mewn marchnad yn unol ag adran 2 o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951)
- lle mae'r holl adar sydd wedi cael eu crynhoi wedi dod o'r un fangre ac yn dychwelyd i'r fangre honno wedyn
- gwerthu adar sydd i gyd wedi dod o'r un fangre (arwerthiant gwasgaru neu 'ailgartrefu')
- casglu adar hela gwyllt yn ystod y tymor agored perthnasol pan maent wedi dod o sawl lleoliad ond yn cael eu symud wedyn i un lleoliad, ac yn aros yno ar gyfer bridio a dibenion eraill
- sioe sy'n cynnwys wyau bwrdd yn unig.

Nid yw nodiadau 4 a 5 yn rhai cynhwysfawr.

6) Er nad oes angen trwydded ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn grynoadau, mae'n arfer gorau mabwysiadu mesurau bioddiogelwch a chadw cofnod o symudiadau adar i'r fangre ac oddi arni neu ar gerbyd ac oddi arno.

7) Os nad ydych yn siŵr a oes angen trwydded ar gyfer eich gweithgarwch, gall APHA roi rhagor o gyngor yn y manylion cyswllt isod.

8) Mae Erthygl 11 (Colomennod rasio) o Orchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol:

"(1) Rhaid i drefnydd sioe neu ras sy'n cael ei chynnal yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru sicrhau bod pob colomen rasio sydd wedi'i chofnodi ar gyfer ras neu'r sioe wedi'i brechu yn erbyn paramycsofirws 1 mewn colomennod.

(2) Rhaid i bob person sy'n berchennog ar golomennod rasio neu'n eu cadw gadw cofnod o bob ras neu sioe y mae'n rhoi colomennod ynddynt.

9) Mae Rheoliadau 2006 yn cynnwys y diffiniadau a ganlyn–

ystyr "aderyn caeth arall" ("*other captive bird*") yw unrhyw aderyn a gedwir yn gaeth ac nad yw'n ddofednyn ac mae'n cynnwys aderyn anwes ac unrhyw aderyn a gedwir ar gyfer sioeau, rasus, arddangosfeydd, cystadlaethau, bridio ac i'w werthu;

ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw'r holl adar sy'n cael eu magu neu eu cadw'n gaeth at ddibenion:

i. cynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta neu gynhyrchion masnachol eraill;

ii. ail-stocio cyflenwadau adar hela; neu

iii. unrhyw raglen fridio ar gyfer cynhyrchu'r categorïau adar hyn neu gynhyrchion a nodir yn is-baragraffau (i) a (ii)

Ond nid yw'n cynnwys unrhyw aderyn sy'n cael ei gadw at ddibenion un aelwyd, lle nad oes gan yr aderyn na'i geidwad gyswllt uniongyrchol nac anuniongyrchol â dofednod eraill neu gyfleusterau dofednod, a defnyddir yr aderyn a chynnyrch yr aderyn yn gyfan gwbl o fewn ac at ddibenion yr un aelwyd.

10) Mae Strategaeth Rheoli Clefydau Adar Hysbysadwy ar gyfer Prydain Fawr yn diffinio 'clefyd adar hysbysadwy' fel ffliw adar a chlefyd Newcastle.

11) Mae Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 yn diffinio "colomen rasio" i olygu unrhyw golomen sy'n cael ei chludo neu y bwriedir ei chludo o'i cholomendy (sef unrhyw adeilad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cadw neu fridio colomennod rasio) i'w rhyddhau er mwyn iddi allu hedfan yn ddirwystr yn ôl i'w cholomendy neu i unrhyw gyrchnod arall.

12) Mae diheintyddion sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio yn erbyn clefydau dofednod yn cael eu rhestru yn: Diheintyddion a gymeradwywyd gan DEFRA | Diheintyddion a gymeradwywyd ar gyfer rheoli clefydau anifeiliaid hysbysadwy statudol ym Mhrydain Fawr

13) Rhaid i unrhyw un sydd ym meddiant unrhyw aderyn neu garcas aderyn, ac yn amau y gallai fod wedi'i heintio â chlefyd adar hysbysadwy, roi gwybod yn syth i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

14) Rhaid cydymffurfio â gofynion perthnasol Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 a/neu Orchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003.

15) Mae rhagor o gyngor ar fesurau bioddiogelwch ac unrhyw ddeddfwriaeth a all fod yn berthnasol ar gael yn LLYW.Cymru neu gan APHA.

16) Ar gyfer crynoadau sy'n cynnwys casglu dofednod ynghyd yng Nghymru, rhaid i chi fodloni gofynion y drwydded gyffredinol ar gyfer dofednod. Rhaid gwneud cais am grynoadau sy'n cynnwys adar Anseriforme (gan gynnwys hwyaid, gwyddau, elyrch) o dan drwydded benodol.

**Cysylltu ag APHA**

17) Gellir cysylltu ag APHA drwy'r

- Ganolfan Cyngor i Gwsmeriaid yn customeradvice@apha.gov.uk
- Llinell gymorth ar gyfer cwsmeriaid yng Nghymru **0300 303 8268**